

---

## **Y Gronfa Radio Cymunedol**

Adroddiad diwedd blwyddyn: 2020-21 (cronfa frys)

---

# 1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut cafodd y Gronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa") ei gweinyddu yn 2020/21. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS") wedi gofyn i Ofcom weinyddu'r Gronfa. Mae DCMS yn rhoi swm o arian i'r Gronfa bob blwyddyn, ac mae grantiau'n cael eu dyfarnu i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom.

Ym mis Ebrill 2020, nododd DCMS y dylid defnyddio'r Gronfa i ddarparu cyllid brys i gynorthwyo gorsafoedd na fyddent yn gallu parhau i weithredu fel arall oherwydd effaith y coronafeirws ar ffrydiau refeniw nawdd a hysbysebu. Felly, ar gyfer 2020-21, cafodd grantiau eu rhoi fel cyllid brys i helpu gyda chostau craidd gorsafoedd a oedd yn wynebu trafferthion ariannol difrifol o ganlyniad i'r pandemig.

# 2. Adroddiad diwedd blwyddyn 2020-21

- 2.1 Diben y Gronfa Radio Cymunedol yw helpu'r rheini sy'n dal trwyddedau radio cymunedol, a helpu gyda'r costau craidd sy'n codi wrth ddarparu gwasanaethau radio cymunedol. Ym mis Ebrill 2020, dywedodd DCMS y dylid defnyddio'r Gronfa i ddarparu cyllid brys i gynorthwyo gorsafoedd na fyddent yn gallu parhau i weithredu fel arall oherwydd effaith y coronafeirws ar ffrydiau refeniw nawdd a hysbysebu. Felly, ar gyfer 2020-21, cafodd grantiau eu rhoi fel cyllid brys i helpu gyda chostau craidd gorsafoedd a oedd yn wynebu trafferthion ariannol difrifol o ganlyniad i'r pandemig.
- 2.2 Ofcom sy'n gweinyddu'r Gronfa ar ran DCMS. Mae'r arian sy'n cael ei ddyrannu i'r Gronfa yn cael ei roi ar ffurf grantiau, yn dilyn proses ymgeisio ffurfiol.
- 2.3 Panel y Gronfa Radio Cymunedol ("y Panel") sy'n penderfynu ar y ceisiadau am grant, ac mae'r Panel yn adrodd i Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom.
- 2.4 Roedd DCMS wedi dyrannu £400,000 i'r Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021. Cafodd £6,810 o arian a oedd wedi cael ei gamwario, neu heb gael ei wario, yn y flwyddyn flaenorol ei ailddyrrannu i'r Gronfa. Hefyd, rhoddodd DCMS £200,000 ar ben hynny i'r Gronfa ar gyfer trydedd rownd ym mis Rhagfyr 2020. O ganlyniad i hynny, roedd £606,810 ar gael ar gyfer y flwyddyn.
- 2.5 Cyfarfu'r Panel dair gwaith yn ystod y flwyddyn i ystyried y ceisiadau am grantiau, ym mis Mai a mis Awst 2020, ac ym mis Chwefror 2021.

## Crynodeb o'r taliadau

- 2.6 Yn y rownd gyntaf, dyfarnwyd cyfanswm o £333,152 mewn grantiau i 81 o orsafoedd.
- 2.7 Yn yr ail rownd, dyfarnwyd cyfanswm o £73,098 mewn grantiau i 31 o orsafoedd.
- 2.8 Yn y drydedd rownd, dyfarnwyd gwerth £200,560 o grantiau i 53 o orsafoedd.

- 2.9 Dros y tair rownd gyllido, cafodd 370 o geisiadau eu hystyried, gyda cheisiadau am gyfanswm o £2,646,139 (£1,820,843 yn y rownd gyntaf, £355,091 yn yr ail rownd, a £470,205 yn y rownd olaf). Gan fod cymaint o wahaniaeth rhwng faint o gyllid oedd ar gael a'r galw am grantiau, gosododd y Panel uchafswm o £7,500 fesul grant ar gyfer yr ail a'r drydedd rownd. Roedd cyfanswm o 241 o orsafoedd wedi gwneud cais, a chafodd 138 o orsafoedd o leiaf un grant.
- 2.10 Amrywiodd gwerth y grantiau a ddyfarnwyd o £500 i £12,075, a £3,678 oedd y dyfarniad cyfartalog. Rhoddwyd cyfanswm o 165 o grantiau ar draws y tair rownd.

## Blaenoriaethau'r Panel

- 2.11 Yn dilyn pob rownd gyllido mae Ofcom yn cyhoeddi datganiad gan y Panel sy'n nodi'r dyfarniadau a wnaed, ac yn egluro blaenoriaethau cyllido'r Panel. Oherwydd natur frys y grantiau a dalwyd yn ystod 2020-21, ni chyhoeddwyd unrhyw wybodaeth am ddyfarniadau unigol, er mwyn sicrhau bod y rheini a oedd wedi gwneud cais am gyllid brys yn aros yn gyfrinachol.
- 2.12 Yn y datganiadau, pwysleisiodd y Panel na allai roi grantiau i bob gorsaf a oedd wedi gwneud cais, gan mai hyn a hyn o arian oedd ar gael. Roedd wedi ystyried pob cais, ynghyd â'r deunyddiau cysylltiedig, ac wedi ystyried lefel yr angen a ddisgrifiwyd gan yr ymgeiswyr, yn ogystal â'r budd a ddisgwylid o gael grant.
- 2.13 Dros y flwyddyn gyfan, cynigiodd y Panel gymorth ariannol i dros chwe gwaith yn fwy o orsafoedd nag yn y blynyddoedd blaenorol, gyda swm cyfartalog is na'r arfer yn cael ei ddyfarnu. Ar draws y tair rownd, roedd y Panel wedi blaenoriaethu:
- ceisiadau a oedd wedi cyflwyno dadl gref dros fod angen cymorth brys gan y Gronfa;
  - ceisiadau gan orsafoedd a oedd yn dibynnu ar ffynonellau cyllid y gwelwyd eu bod yn ansicr yn ystod y pandemig, fel incwm o hysbysebion, hyfforddiant a digwyddiadau;
  - ceisiadau gan orsafoedd a oedd wedi adolygu eu gweithrediadau presennol a defnyddio pob ffynhonnell bosibl arall o gyllid;
  - ceisiadau lle gellid defnyddio grant bach i brynu offer er mwyn ei gwneud yn bosibl i weithio o bell;
  - ceisiadau a oedd wedi darparu digon o wybodaeth i'r Panel allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth;
  - talau am gostau sefydlog fel rhent, ardrethi a chyfleustodau dros gyfnod o dri i chwe mis, yn hytrach na rhagamcan o golledion refeniw; ac
  - ariannu amrywiaeth eang o orsafoedd er mwyn cefnogi hyfywedd y sector yn ei gyfanrwydd, yn enwedig y gorsafoedd hynny lle byddai swm llai o arian yn gwneud gwahaniaeth mawr i sicrhau bod yr orsaf yn parhau i ddarlledu.
- 2.14 Yn yr ail a'r drydedd rownd, roedd y Panel hefyd wedi ystyried a oedd gorsafoedd wedi cael grant brys gan y Gronfa o'r blaen. Yn y drydedd rownd, roedd y Panel hefyd wedi dyfarnu

nifer fach o grantiau i orsafoedd a oedd yn dymuno creu incwm drwy werthu hysbysebion yn ystod y misoedd i ddod.

- 2.15 Yn ystod y drydedd rownd, roedd y Panel yn croesawu ceisiadau gan orsafoedd a oedd yn dangos eu bod yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd yn eu cymunedau.
- 2.16 Mae'r datganiadau cryno o'r dyfarniadau, a sylwadau ychwanegol gan y Panel, ar gael ar [dudalen y Gronfa Radio Cymunedol](#) ar wefan Ofcom.

## Monitro grantiau

- 2.17 Mae gan y Panel weithdrefn adrodd ar waith i wneud yn siŵr bod y dyfarniadau grant yn cael eu gwario fel y cytunwyd. Rhoddir cytundeb grant ar waith rhwng Ofcom a phob trwyddedai sy'n cael grant, ac mae'r cytundeb yn nodi telerau'r dyfarniad, gan gynnwys cyfnod gwario. Ar ddiwedd cyfnod gwario'r grant, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau adroddiad (yr 'adroddiad grant') sy'n rhoi manylion am sut roedden nhw wedi gwario eu grant. Ar ben hynny, gofynnir am adroddiadau grant interim hanner ffordd drwy'r cyfnod gwario perthnasol. Mae'r adroddiadau interim yn help i ddod o hyd i unrhyw broblemau posibl a allai ddeillio o wario'r grant. Os na chyflwynir adroddiad boddhaol, efallai y bydd y Panel yn gofyn am y grant yn ôl ac efallai na fydd yn ystyried rhoi grant arall i'r trwyddedai.
- 2.18 Er mwyn lleihau'r baich ar drwyddedeion sy'n cael cyllid brys, cytunwyd i beidio â gofyn am unrhyw adroddiadau grant ar gyfer grantiau a ddyfarnwyd yn 2020-21. Darparwyd rhywfaint o adroddiadau grant i Ofcom yn ystod y rowndiau cyllido ac at ddibenion eraill, ac roedd yr adroddiadau hyn yn foddhaol.
- 2.19 Os bydd trwyddedai'n rhoi'r gorau i ddal ei drwydded ddarlledu (ee, drwy ei hildio neu ei dirymu) tra bydd cytundeb grant mewn lle, bydd unrhyw arian grant sydd heb gael ei wario yn gorfod cael ei dalu'n ôl yn llawn.
- 2.20 Oherwydd y Coronafeirws a'r rownd ychwanegol ar gyfer 2020-21, rydym wedi gohirio rhai o'n ceisiadau am adroddiadau interim a therfynol ar gyfer grantiau a ddyfarnwyd gan y Gronfa yn ystod 2018-19 a 2019-20. Mae rhai gorsafoedd hefyd wedi gofyn am estyniadau i'w cyfnod gwario oherwydd effaith y pandemig. Cytunwyd ar y ceisiadau hyn, ac felly mae'r dyddiadau cau ar gyfer yr adroddiadau grant hyn wedi newid.
- 2.21 Roedd yr holl adroddiadau grant a gafwyd yn ystod 2020-21 naill ai'n foddhaol neu'n dal i gael eu hadolygu. Mae Ofcom yn edrych yn ofalus ar bob adroddiad, ac yn gofyn yn ystod y broses adolygu am esboniadau gan y rheini a dderbyniodd grantiau, os bydd angen.
- 2.22 Roedd un trwyddedai a gafodd grant ym mis Ionawr 2019 wedi darparu adroddiad grant a oedd yn dangos nad oedd rhywfaint o'r arian wedi cael ei wario ar ddiben dynodedig y grant. Felly, ad-dalwyd £1,791 i'r Gronfa. Mae dau grant arall a oedd heb gael eu gwario wedi cael eu dychwelyd i Ofcom ers i adroddiad blynyddol 2019-20 gael ei gyhoeddi, a oedd yn dod i gyfanswm o £3,551.73.

2.23 Cytunodd y Panel ar bedwar cais i addasu diben y grantiau presennol. Roedd dwy orsaf a gafodd grantiau yn 2018-19, a dwy orsaf a gafodd grantiau yn 2019-20, wedi addasu diben rhannau o'u grantiau presennol er mwyn eu gwario ar gostau rhedeg ac offer. Cytunodd y Panel ar y newidiadau hyn, ond roedd yn gobeithio y byddai'r rheini a gafodd y grantiau yn gallu defnyddio cymaint â phosibl o'u grantiau ar gyfer y dibenion gwreiddiol.

## Y sector radio cymunedol a dyfodol y Gronfa

2.24 Mae'r sector radio cymunedol wedi parhau i dyfu; roedd 307 o orsafoedd yn darlledu ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21, o'i gymharu â 298 yn 2019/20. Fe wnaethom orffen y rownd olaf o drwyddedu radio cymunedol analog ym mis Mawrth 2020, yn dilyn ein [diweddariad ar ein blaenoriaethau ar gyfer Radio Cymunedol](#) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019.

2.25 Ym mis Gorffennaf 2020 roeddem wedi gwahodd ceisiadau gan wasanaethau radio cymunedol posibl yn nhref Northampton. Y rheswm am hynny oedd oherwydd nad oedd yr ymgeisydd cyfredol wedi cyflwyno cais i ymestyn hyd ei drwydded erbyn y dyddiad cau statudol, ond roedd wedi dweud ei fod eisiau parhau i ddarlledu. Roeddem ni o'r farn ei bod yn hanfodol bod y trwyddedai'n cael cyfle i wneud cais am drwydded, er mwyn sicrhau nad oedd gwrandawyr yn colli gwasanaeth lleol gwerthfawr yng nghanol pandemig. Yn y pen draw, cawsom dri chais gan drwyddedeion posibl, a dyfarnwyd trwydded i bob un ohonynt (gan gynnwys y trwyddedai a oedd heb wneud cais am estyniad erbyn y dyddiad cau statudol).

2.26 Cafwyd 23 o geisiadau am drwyddedau gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol ("C-DSP") yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21. Cafodd wyth trwydded C-DSP ei chyhoeddi yn 2020-21, ond doedd dim un ohonynt wedi dechrau darlledu. Bydd deiliaid trwyddedau C-DSP yn gymwys i wneud cais am y Gronfa o 2021-22 ymlaen, os yw'r gwasanaeth yn darlledu ar ddyddiad y cais.

2.27 Mae cytundeb cyllido cyfredol Ofcom gyda DCMS wedi cael ei ymestyn i gynnwys blwyddyn ariannol 2021/22.

## Aelodau'r Panel

2.28 Mae'r Panel yn cynnwys tri aelod a benodwyd gan Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom. Dyma'r aelodau ar gyfer 2020/21:

- Wendy Pilmer, Cadeirydd y Panel, sy'n ymgynghorydd sy'n gweithio gyda phrif ddarlledwyr y byd i weithredu strategaeth a rheoli newid;
- Richard Hilton, sy'n Uwch Bartner Busnes Ariannol gyda Busnes yn y Gymuned, elusen a sefydliad aelodaeth sy'n gweithio gyda chwmnïau i wella effaith gadarnhaol busnesau ar gymdeithas; a
- Fiona Lennox, un o weithwyr Ofcom, sydd â phrofiad helaeth o strategaethau cyfathrebu, polisi, ymchwil a rheoli.